# Gwneud sylwadau

Mae cwestiynau'n bwysig ac mae ganddyn nhw eu lle. Fodd bynnag, mae'n bwysig yng nghyfnodau cynnar datblygiad cyfathrebu bod plant yn clywed modelau da o strwythurau iaith a geirfa. Felly, osgowch ofyn cwestiynau i'ch plentyn yn ystod ei chwarae a gwnewch sylwadau am beth mae'n ei wneud yn lle hynny.

**Beth ddylwn i ei wneud?**

- **Dangoswch ddiddordeb** yn beth y mae eich plentyn yn ei wneud, bydd hyn yn ei annog i wneud mwy o ymdrechion i gyfathrebu.
- **Modelwch iaith** a defnyddio geiriau sy'n berthnasol i'w chwarae, mae hyn yn dangos i'r plentyn sut i siarad am beth mae'n ei wneud.
- **Osgowch ofyn cwestiynau** yn ystod y chwarae fel “beth yw hwn?”, “pa liw yw e?”, “ble…?”, “faint…?”.
- **Yn lle hynny, dywedwch air** neu **ychydig o eiriau** sy'n bwysig i'r plentyn ar y pryd – rhowch sylwadau ar rywbeth mae'n edrych arno neu'n ei wneud.
- **Disgrifiwch (gyda rhai geiriau yn unig) beth sydd o'ch cwmpas** – beth y gallwch ei weld, beth y gallwch ei glywed ac ati. A chofiwch i

**Sut?**

**Peidiwch â gofyn gormod o gwestiynau. Yn lle hynny, RHOWCH SYLWADAU ar beth y mae'r plentyn yn ei wneud yn hytrach na thorri ar draws ei chwarae.**



**Eu roi ar waith**

- **Ymunwch yn y chwarae**, mae hyn yn caniatáu i'r plentyn ddewis beth mae am gyfathrebu amdano a mynegi ei hunain yn ei ffordd ei hunain.
- **Siaradwch** a **rhowch sylwadau** am beth mae'n ei wneud, bydd hyn yn cadw'r rhyngweithiad yn mynd.
- **Osgowch y demtasiwn i ofyn** i'ch plentyn beth mae'n ei wneud – **mae hyn yn ei helpu i ganolbwyntio ar ei chwarae ei hunain** yn hytrach nag ateb y cwestiwn.
- Ymadrodd defnyddiol i'w ddefnyddio yw, **“Tybed…”** Er enghraifft, **“Tybed beth sydd i ginio heddiw…”** neu **“Tybed beth wyt ti'n mynd i chwarae ag ef heddiw…”**

**Am syniadau pellach edrychwch ar y fideos**

SCAN ME

SCAN ME

[www.llyw.cymru/siarad-](http://www.llyw.cymru/siarad-)

**Symud ymlaen…**

Pan fyddwch chi'n teimlo eich bod yn hyderus gyda'r strategaeth hon, nesaf, ceisiwch ganolbwyntio ar **ailadrodd**. Mae ailadrodd geiriau a frawddegau yn helpu ymennydd plentyn i wneud cysylltiadau rhwng geiriau a gwrthrychau. **Mae plant yn caru clywed yr un straeon a chaneuon dro ar ôl tro**, mae hyn oherwydd y mwy maen nhw'n profi rhywbeth, y cryfaf y daw'r